# Dewis mamogiaid amnewid mewn diadell fynydd

Elfen allweddol o wneud diadell yn fwy cynhyrchiol ac effeithlon, yw dewis anifeiliaid amnewid – mamogiaid a hyrddod – er mwyn gwella geneteg y ddiadell yn ôl yr amcanion bridio a bennwyd.

Y cam cyntaf yw penderfynu a ddylid prynu eich anifeiliaid amnewid neu eu magu eich hun. Am sawl rheswm, gan gynnwys gwybod statws iechyd a genetig yr anifeiliaid, mae llai o risg os ydych yn magu eich hanifeiliaid amnewid eich hun. Fodd bynnag, os ydych yn bwriadu cyflwyno geneteg newydd, gall dewis mamogiaid o ddiadelloedd â chofnodion perfformiad gyflymu'r broses enetig.

Cyn ystyried ystadegau perfformiad genetig, dylech fwrw golwg dros gorff yr anifail ac ystyried yr elfennau sylfaenol.

## Traed a choesau

Yn eich diadell eich hun, defnyddiwch gofnodion rheoli i ddewis anifeiliaid amnewid na fu'n gloff oherwydd bydd hynny'n help i leihau achosion o gloffni yn y ddiadell gyfan. Gall siâp gwaelod y goes gael effaith ar symudedd a hirhoedledd, ac mae'n bwysig cofio hyn mewn perthynas â hyrddod a mamogiaid.

## Cyflwr corff a phwysau

Mae cynnal cyflwr y corff yn unol â system y fferm – yn enwedig ar mynydd – yn hanfodol, ac felly mae'n bosib y gallwch ddefnyddio'ch cofnodion ŵyna i wirio hanes magu'r fam. Fodd bynnag, mae hyn yn fwy perthnasol wrth ddewis mamogiaid i'w difa neu eu croes-fridio.

Dylai pwysau mamogiaid amnewid fod o fewn 15% i bwysau cyfartalog y grŵp. Ystyriwch amcangyfrifo mynegrif effeithlonrwydd i famogiaid yn eich diadell eich hun fel eich bod chi'n defnyddio'r rhai mwyaf effeithlon i fagu. Mae'n hysbys y gall cynhyrchiant rhai mamogiaid, drwy gydol eu hoes, fod ddwywaith yn well na chynhyrchiant y mamogiaid eraill yn y ddiadell.

Ceisiwch osgoi cadw ŵyn benyw sydd wedi bod yn gloff neu â chaglau yn ystod y tymor – mae iechyd cyffredinol yn hanfodol ar gyfer cynhyrchiant a hirhoedledd.

Os ydych chi'n bridio ŵyn benyw, dylent bwyso o leiaf 60% o bwysau llawn-dwf tybiedig eich diadell. Fel rheol, peidiwch â chadw ŵyn benyw sy'n llai na 15% o gyfartaledd eu grŵp. Dyma pam ei bod yn bwysig pwyso o leiaf ddetholiad o famogiaid cyn eu troi at yr hwrdd er mwyn gwybod pwysau llawn-dwf y mamogiaid. Mae pwysau mamog llawn-dwf yn Werth Bridio Tybiedig (EBV) sy'n cael ei ddatblygu fel rhan o astudiaethau genetig y Cynllun Hyrddod Mynydd.

## Dannedd a cheg

Dylech bob amser wneud archwiliad gofalus o ddannedd a gên yr holl famogiaid y bwriedir eu cadw'n anifeiliaid amnewid – a dewiswch ond y rhai sydd â dannedd a cheg cadarn.

## Defnyddio cofnodion perfformiad

Mewn diadell â chofnodion perfformiad, mae yna fantais sylweddol o gael gwybodaeth enetig ar gyfer yr holl famogiaid a gofnodwyd. Mae'r mynegrif a'r EBVau yn golygu y gallwch ddewis nodweddion sy'n allweddol i'ch amcanion bridio. Er enghraifft, gallwch ddewis ar gyfer gallu mamol, pwysau 8-wythnos a thrwch braster/cyhyrau. Mae hefyd yn bwysig gwneud yn siŵr fod y ffigurau'n gywir; bydd y rhain yn dibynnu ar faint o ddata (h.y. nifer y perthnasau a chofnodion) sydd ar gael ar gyfer yr unigolyn. Mae'r holl wybodaeth ar gael ar wefan Signet i'ch helpu i wneud penderfyniadau wrth dewis.